



Eglwys Gymraeg Canol Llundain
United Welsh Church in Central London
30, Eastcastle Street, Oxford Circus, London W1W 8DJ

Annwyl Aelodau a Chyfeillion,

Medi 13eg, 2020 – AILAGOR

Mae'n bleser mawr gennym roi gwybod i chi ein bod yn bwriadu ailagor y capel ar ddydd Sul, Medi 13eg 2020. I ddechrau, y bwriad yw cynnal oedfa'r bore am 11.00 yn unig, i bawb sy'n teimlo y gallan nhw ddod.

Ers i'r capel gau dros dro, daeth **Tâl Tagfeydd** newydd i rym sy'n cynnwys Dydd Sul. Rydym ni fel eglwys wedi ysgrifennu at Faer Llundain i wrthwynebu'r tâl.

Gwnaethom hefyd roi yn eu lle fesurau i'ch cadw'n ddiogel tra eich bod yn mynychu oedfaon EGCLI. Yn ychwanegol, pwysleisiwn na ddylech ddod i'r capel os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos ag unrhyw un sy'n dioddef o COVID 19 yn ddiweddar neu os ydych yn dangos unrhyw arwyddion o fod yn anhwylyd eich hunan.

COVID 19 - EIN CAMAU A MESURAU

- Diogelwch wrth fynediad y capel – os gwelwch yn dda peidiwch ag oedi yn y cyntedd, heblaw i lanweithio eich dwylo ar y ffordd i mewn. Cymerwch eich sedd benodol yn y capel cyn gynted ag y cyrhaeddwch. Bydd llyfrau emynau a Beiblau ar y seddau yr hoffwn i chi eistedd arnyn nhw.
- **Bydd disgwyl i chi wisgo masg yn adeilad y capel.**
- Dilynwch arwyddion symudiad unffordd wrth ddod i mewn ac allan o'r capel. Ewch i mewn drwy'r drws i'r chwith o'r cyntedd ac allan drwy'r drws i'r dde o'r cyntedd.
- Dim ond un teulu sy'n gallu defnyddio'r lifft ar y tro, er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol.
- Byddwn yn darparu digon o gel i lanweithio'r dwylo ar eich cyfer yn y cyntedd a bydd nifer fach o fasnau i unrhyw un sy'n digwydd anghofio dod ag un.
- Bydd polisi gyda ni o un person ar y tro i ddefnyddio'r toiledau.
- Os gwelwch yn dda defnyddiwch y sychwyr fydd ar gael i lanhau unrhyw switsh neu ddolen drws yr ydych wedi cyffwrdd â nhw (gan gael gwared ar y sychwyr yn y bin gerllaw, nid yn y toiled). Gofynnwch i ddiagon os bydd eisiau cymorth arnoch.
- Yn anffodus, am y tro, bydd rhaid i ni ddilyn canllawiau'r llywodraeth sy'n gwahardd canu yn ystod yr oedfa.
- Bydd platiau casglu yn y cyntedd os dymunwch adael cyfraniad ar y ffordd allan. Ar y llaw arall os dymunwch, gallwch drefnu archeb barhaol gyda'r banc.
- Mae'n ofynnol i ni weithredu cynllun "Profi ac Orlhain" ar gyfer aelodau ac ymwelwyr sy'n mynychu'r oedfa. Byddwn yn cadw cofnodion o'r enwau a'r rhifau ffôn i'r pwrpas hwn am 21 diwrnod yn unig cyn eu dinistrio.
- Yn olaf, ni fyddwn ni'n gallu cynnig te neu goffi ar ôl yr oedfa ar hyn o bryd.

Fel y gwelwch, rydym yn cynllunio ailagor y capel mewn modd pwyllog ac fe fyddem wrth ein bodd yn eich croesawu nôl i ymuno â ni yn ein hoedfa ar fore Sul, Medi 13eg am 11.00.

Llawer o ddiolch am eich ystyriaeth.
Dymuniadau gorau,
Marian ac Ann